

## LCL Awards Welsh Language Policy Statement

LCL Awards recognises the importance of language diversity and cultural inclusivity. As an awarding body committed to providing educational opportunities, we aim to accommodate the linguistic needs of our learners to the best of our abilities.

However, due to certain constraints and considerations, we have made the decision **not to offer qualifications through the medium of Welsh** at this time.

The decision not to offer qualifications in Welsh is based on the following factors:

### 1. Availability of resources

Developing and delivering qualifications through multiple mediums requires significant resources, including qualified personnel, curriculum development, and assessment materials. Given our current resource constraints, we have prioritised offering our qualifications in English, where there is higher demand and broader accessibility.

### 2. Market demand

While we recognise the importance of Welsh-medium education, the demand for qualifications through the medium of Welsh may vary across different regions and sectors.

Our decision is also influenced by the demand from our Approved Centres, which helped us guide our qualification offer.

### 3. Alignment with Regulator Conditions and Requirements

Regulations published in respect of the qualifications we offer often have specific requirements and standards set outside Wales. In some cases, offering qualifications in Welsh may require additional approval and compliance measures that pose logistical and practical challenges at this time.

We will periodically review this policy to assess our capacity and evaluate the changing needs and demands of learners.

We welcome feedback and input from all stakeholders, including Welsh-medium and bilingual centres that we work with, as we strive to continuously improve our qualification offer.

### 4. Qualification Information

Enquiries relating to LCL Awards qualifications awarded in Wales should be addressed to [enquiries@lclawards.co.uk](mailto:enquiries@lclawards.co.uk)

## **Datganiad Polisi Iaith Gymraeg LCL Awards**

Mae LCL Awards yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth ieithyddol a chynwysoldeb diwylliannol. Fel sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd addysgol, ein nod yw diwallu anghenion ieithyddol ein dysgwyr hyd eithaf ein gallu. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau ac ystyriaethau penodol, rydyn ni wedi gwneud y penderfyniad i **beidio â chynnig cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** ar hyn o bryd.

Mae'r penderfyniad i beidio â chynnig cymwysterau yn Gymraeg yn seiliedig ar y ffactorau canlynol:

### **1. Argaeledd adnoddau**

Mae datblygu a chyflwyno cymwysterau trwy sawl cyfrwng yn gofyn am adnoddau sylweddol, gan gynnwys personél cymwys, datblygu'r cwricwlwm, a deunyddiau asesu. O ystyried ein cyfyngiadau presennol o ran adnoddau, rydyn ni wedi blaenoriaethu cynnig cymwysterau mewn ieithoedd sydd â galw uwch a hygyrchedd ehangach.

### **2. Galw yn y farchnad**

Er ein bod ni'n cydnabod pwysigrwydd addysg cyfrwng Cymraeg, gall y galw am gymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg amrywio ar draws gwahanol ranbarthau a sectorau. Mae ein penderfyniad hefyd yn cael ei ddylanwadu gan y galw gan gyflogwyr, ysgolion a cholegau, sefydliadau addysg uwch, a rhanddeiliaid eraill, sy'n helpu i arwain ein cynnig cymhwyster.

### **3. Cysoni ag Amodau a Gofynion y Rheoleiddiwr**

Mae rheoliadau a gyhoeddir mewn perthynas â'r cymwysterau a gynigiwn yn aml yn cynnwys gofynion a safonau penodol wedi'u gosod y tu allan i Gymru. Mewn rhai achosion, efallai y bydd angen llunio mesurau cymeradwyo a chydymffurfiaeth ychwanegol wrth gynnig cymwysterau yn y Gymraeg, sy'n arwain heriau ymarferol ar hyn o bryd.

Byddwn ni'n adolygu'r polisi hwn o bryd i'w gilydd i asesu ein gallu a gwerthuso anghenion a gofynion newidiol dysgwyr.

Rydyn ni'n croesawu adborth a mewnbwn gan yr holl randdeiliaid, gan gynnwys canolfannau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog rydyn ni'n gweithio gyda nhw, wrth i ni ymdrechu i wella ein cynnig cymhwyster yn barhaus.

### **4. Gwybodaeth am Gymwysterau**

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch cymwysterau Gwobrau LCL a ddyfarnwyd yng Nghymru at [enquiries@lclawards.co.uk](mailto:enquiries@lclawards.co.uk).